CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

328/51

**CYMDEITHASEG – SOC 2a**

**UNED 2a - YMCHWIL CYMDEITHASOL**

A.M. DYDD MAWRTH, 15 Mai 2007

(1 awr 15 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Cynghorir chi i dreulio 15 munud yn darllen y darn a'r cwestiynau. Rhannwch eich amser yn ôl y marciau a roddir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

60 yw'r marc uchaf am y cwestiwn.

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

Darllenwch y darn canlynol ac yna atebwch **bob un** o'r cwestiynau sy'n dilyn.

**Deall y berthynas rhwng teidiau a neiniau a'u hwyrion**

Mabwysiadodd yr ymchwil ddull **ansoddol** i archwilio ystyr a phwysigrwydd y berthynas rhwng teidiau a neiniau (tad-cuod a mam-guod) a'u hwyrion.

Dewiswyd yr atebwyr i sicrhau ystod gymdeithasol, gyda rhai'n dod o gefndiroedd cyfoethog ac eraill o gefndiroedd llai cyfoethog, ynghyd â rhai o ardaloedd gwledig ac eraill o ardaloedd trefol. Roedd yn fwriad cynnwys yn y **sampl** gyfranogwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol hefyd.

Roedd hi'n fwy anodd cael hyd i gyfranogwyr nag y tybiwyd ar y dechrau. Cafwyd hyd i wyrion trwy ysgolion a grwpiau cymunedol. Roedd y teidiau a'r neiniau'n dod o sefydliadau yn y gymuned leol a nifer o glybiau. Roedd cael pobl i gyfranogi'n fwyaf llwyddiannus pan fyddai person lleol yn annog pobl i gymryd rhan, fel rheol oherwydd bod ganddynt ddiddordeb yn yr ymchwil. Roedd hi'n fwy anodd recriwtio teidiau na neiniau.

Gwnaeth 148 o atebwyr gymryd rhan yn yr astudiaeth, sef 75 o bobl ifanc a 73 o bobl hŷn yr oedd ganddynt o leiaf un ŵyr neu wyres yn eu harddegau. Roedd hanner y bobl ifanc rhwng 10 a 14 oed a'r hanner arall rhwng 15 a 19 oed. Roedd oedran y teidiau a'r neiniau'n amrywio o'r 50au cynnar hyd yr 80au hwyr. Cynhaliwyd cyfweliadau a thrafodaethau grŵp ag atebwyr o'r ddwy genhedlaeth.

Cafwyd cyfanswm o 68 o gyfweliadau a thrafodaethau:

- 24 o gyfweliadau unigol a 10 o drafodaethau grŵp â phobl ifanc
- 18 o gyfweliadau unigol ac 8 o drafodaethau grŵp â phobl hŷn
- Cynhaliwyd cyfweliadau ar y cyd hefyd ag 8 pâr o deidiau/neiniau a'u hwyrion.

Roedd rhai pobl ifanc yn fwy agored am eu teimladau wrth iddynt gael eu cyfweld yn unigol.

*Ffynhonnell: addasiad o ffeil wedi'i llwytho i lawr o www.escrsocietytoday.ac.uk*

*(a)* Eglurwch beth yw ystyr y term ymchwil **ansoddol**. [5]

*(b)* Nodwch ac eglurwch gryfderau cynllun yr ymchwil a ddisgrifir yn y darn uchod. [10]

*(c)* Gan ddefnyddio'r darn a'r hyn rydych chi'n ei wybod, disgrifiwch ac eglurwch bwysigrwydd technegau **samplu** ar gyfer ymchwil cymdeithasegol. [15]

*(ch)* Trafodwch gryfderau a gwendidau dulliau ymchwil **ansoddol**. [30]